# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 38. RHIF 2 GORFFENNAF 2016 50c


# *Pasiant y Pentecost yn Lerpwl*

## *Sul y Pentecost (15 Mai 2016)*



*Cristnogion o bob lliw ac iaith yn Hope Street*

### Cwestiwn i bawb:

Mae'r Nadolig yn Ŵyl y Teulu,
Pasg yn Ŵyl y Fuddugoliaeth,
a'r Pentecost yn Ŵyl geni'r Eglwys.
A ddylem ei galw yn Ŵyl y Llawenydd?




*Y Stryd a'r offerynnwyr yn cyhoeddi Gobaith*



*Croesdoriad o'r pererinion*



*Molianed y Cenhedloedd*

*Gwelwyd Undeb Gorawl Cymry Lerpwl yn cyfrannu yn gofiadwy*

*Lluniau:*
*Dr. John G. Williams*


**YN Y RHIFYN HWN:**

Newyddion o Bethel, Seion, Bethania, Manceinion. Golygyddol.
Anrhydeddu y Meddyg Caredig. Cymanfa Manceinion.
Adolygu Geiriadur Ysblennydd a mwy …

Golygyddol

# *Pleidleisiwch i Aros yn yr Undeb Ewropeaidd –* *gan D. Ben Rees*

Ni wn i am neb sydd am ddod allan o'r Undeb Ewropeaidd sydd yn perthyn i Gymry Lerpwl na Chymry Manceinion, ond gwn am filoedd o Saeson sydd yn mynychu cyfarfodydd a drefnir gan y teledu sydd yn arddel UKIP a'r Ceidwadwyr eithafol, fel Boris Johnson, Michael Gove, Liam Fox ac ambell i ecsentrig o Lafurwyr fel Frank Field a Kate Hoey. Yn 1975 pleidleisiais yn erbyn ymuno â'r Farchnad Gyffredin ond newidiais fy meddwl erbyn hyn. Efallai pe bae arweinwyr Brexit yn fwy cymedrol, yn llai celwyddog, yn fwy synhwyrol a doeth y cawn fy nhemtio drachefn. Ond mae clywed ei ymateb i bob adroddiad sydd yn ein rhybuddio i fod yn ofalus gan fod ein safon byw yn y fantol yn dweud y cwbl. Y gwir yw mai Llundain yw canolbwynt ariannol yr Undeb Ewropeaidd. Fel y dywedodd José Manuel Barroso, cyn Gomisiynydd Ewropeaidd fis yn ôl ar y scenario o dynnu allan o'r Undeb "London could no longer be the finanical capital of Europe".

Meddyliwch o ddifrif. I ddechrau y mae dwy filiwn a chwarter yn gweithio yn y diwydiant, a'r adrannau eraill, fel y gyfraith, fel cyfrifyddion, a dwy rhan o'r rheiny yn Lerpwl, Manceinion a gweddill y Deyrnas Unedig. Cynhyrcha hyn gyfoeth aruthrol trwy drethi a masnachu, rhywle oddeutu 75 biliwn o bunnau. Gwelir 250 o fanciau tramor yn Llundain yn ogystal a dros 200 o gwmniau cyfreithiol sydd a'i swyddfeydd ar hyd a lled Prydain. Amcangyrfirif gan y cyfrifwyr, *The City UK*, y byddai hynny yn golygu can mil o swyddi yn diflannu erbyn 2020. Y mae Michael Gove ac eraill yn medru anwybyddu y ffeithiau celyd hyn. Ond yn ôl yr arbenigwr Gerard Lyons nid Paris neu Frankfurt fydd yn cymeryd lle Llundain fel canolfan ariannol Ewrop ond Efrog Newydd, neu Singapore neu Hong Kong.

Nid oes un banc o'r 200 sydd yn Llundain o bob rhan o'r byd am adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n wir fod rhai cyfalafwyr sy'n dibynnu ar greu cyfalaf fel Crispin Odey, a Paul Marshall yn rhoddi llawer o arian ar gyfer bws Boris Johnson sydd yn dal i bedlera celwydd, ein bod yn cyflwyno £350 miliwn bob wythnos i'r Undeb, ond hanner gwir yw hynny, y swm cywir yw £117 miliwn a daw llawer o arian yn ôl i Brydain. Ni fyddai Lerpwl wedi gwella y tu hwnt i bob dirnadaeth, o ran amgylchedd a masnach oni bai am Ewrop. Daeth hi'n hen bryd gwella Smithdown Road a Picton Road sydd yn edrych yn druenus o drist.

Meddylier am yr arian a dderbyniodd Cymru o'r Undeb, yn arbennig cymoedd y De a Gorllewin Cymru. Ond deil Cymru yn druenus o dlawd a mawr obeithiwn y bydd y Llywodraeth Lafur gyda cydweithrediad Plaid Cymru yn mynd i'r afael ag anghenion gwlad y 'menig gwynion'. Ond ni all Cymru fforddio dod allan o'r Undeb Ewropeaidd mwy na'r Alban. Ac os down allan, fe gollir yr Alban, gan y byddant hwy yn trefnu refferendwm arall ar gyfer annibyniaeth.

Yr ofn arall yw y bydd cwmnïau a ffatrioedd yn symud o Brydain i Gyfandir Ewrop, ac nid yn unig Cymru fydd yn dlawd, ond fe fydd pob rhan o Brydain gan gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain.


Rheswm arall dros berthyn i'r Undeb Ewropeaidd yw i gadw heddwch rhwng 28 o wledydd. Llwyddodd Ewrop, drwy undeb rhwng y gwledydd, i gadw cymod yn y tir o 1948 hyd heddiw. Nid yn 2016 gyda bygwth ISIS a Putin yn Rwsia yw'r adeg i ddatgymalu.

Oherwydd drygioni Mussolini, Franco a Hitler bu hi yn amser anodd arnom yn Ewrop ac onibai am ddewrder bechgyn a merched Prydain, mi fyddem heddiw o dan fawd y Natsïaid. Daliodd Prydain yn ddewr. Hi oedd yn arwain. Bu pwyso mawr ar yr UDA i ddod i'n helpu. Hir y bu'r aros. Yr wyf am weld Prydain nid yn cilio yn ôl i'r cysgodion ond yn mynd i Brwsel a Strasbourg gyda phenderfyniad i fod yn fwy o arweinwyr Ewop na'r hen elynion yr Almaen a'r Eidal a llawer o wledydd Dwyrain Ewrop. Melltith o blaid yw UKIP fel y gwelir yn y Cynulliad yng Nghaerdydd. Nid ydym am i Brydain gefnogi 'gwenwyn' UKIP ond am ddathlu yr amrywiaeth. Undeb sydd a'i angen.

Ie, undeb mewn amrywiaeth o wledydd diddorol, hanesyddol, gwahanol lle gall Ewrop fod yn esiampl i bob cyfandir arall, a ninnau yn falch o gael perthyn iddi


**CYSTADLEUAETH GOLFF**

**CYMRY LERPWL 2016**




14eg MEDI 2016

Cwrs golff Woolton Golf, Speke Road, Lerpwl L25 7TZ

Mae'n agored i ferched a dynion

Cost £35 yr unigolyn neu £150 am bedwar yn cynnwys cinio ysgafn, gêm 18 twll,

**SWPER A GWOBRAU ANHYGOEL**



am fwy o fanylion cysylltwch â Dr. John Willams ar doctorjohnwilliams@btinternet.com

# HOLIADUR YR ANGOR (2016)

Rhaid i mi ddiolch i bob un a wnaeth yr ymdrech i ymateb i'r holiadur a gyhoeddwyd yn *Yr Angor*. Yr oedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn er mai pobl dros 60 mlwydd oed oedd y mwyafrif helaeth a ymatebodd. Ni chafwyd neb o dan ugain oed sydd yn peri gofid. Ond cafwyd rhai dan 40 a dros 20 a rhai hefyd o 41-60, felly mae carfan o'r to iau yn cael blas o'r papur bro. Daeth y mwyafrif o'r atebion o'r Glannau, pum o Gymru yn unig.

Y mae ffeithiau cadarnhaol iawn.

i) Pob un yn prynu *Yr Angor*, hynny yw yn tanysgrifio neu yn ei bwrcasu o gapel neu gymdeithas. Nid oes neb yn ei dderbyn ar ôl rhywun arall.

ii) Neb yn gweld *Yr Angor* yn anniddorol. Pob un yn ei gael yn ddiddorol ac yn berthnasol.

iii) Caiff y lluniau gymeradwyaeth, ei bod yn luniau da, a bron pob un yn cyfeirio ei bod yn glir iawn.

iv) I'r cwestiwn: **Pa ran o'r Angor y byddwch yn troi iddo gyntaf**, mae'r mwyafrif helaeth yn dweud (a) Y Golygyddol. Yn ail Newyddion Glannau Mersi a Manceinion (nododd un Hanes Eglwys Bethel). Caiff y dudalen flaen gefnogwyr, erthyglau hanesyddol, y lluniau a'r dudalen flaen.

v) Y mae pob un yn mwynhau pob tudalen o'r *Angor*. Diolch eto.

vi) **Diwyg y papur.** Yr ymateb ydyw, proffesiynol gan bob un, ac fe aeth tri o'r holiadur, i danlinellu proffesiynol iawn. Dyma bluen yn het pob un o'r Pwyllgor Golygyddol a'r Golygydd a'r Cysodydd Aeron Jones.

vii) **Papur Bro.** Pob un yn credu fod *Yr Angor* yn cyflawni swyddogaeth papur bro.

viii) **Cyfranwyr.** Nid yw y mwyafrif yn awchu am gyfrannu ond fe nododd pump ei bod â diddordeb. Felly fy apêl i bob un ohoynt ydyw, cysylltwch pan ddaw'r awen heibio. Peidiwch a gofidio os ydych yn ofnus wrth ysgrifennu yn y Gymraeg, yr wyf fel Golygydd yn barod, yn wir, yn awyddus iawn i'ch cynorthwyo os fydd angen, barod i gywiro a helpu gyda'r sbelian, y gystrawen, ac ambell air Saesneg a ddaw mor naturiol i ni mewn awyrgylch Seisnig. Mae'n rhyfeddol fod 90 y cant o'r cyfranwyr ym mhob rhifyn yn dod o Lannau Mersi neu o Fanceinion a'r Cyffiniau.

ix) **Safon iaith yr Angor.** Dyma'r gymeradwyaeth a) graenus; b) darllenadwy; c) rhwydd i'w ddarllen; ch) da. Dyma eto galondid gan nad oes un o'r holiaduron yn dweud ei fod yn rhy anodd na gwallus.

x) **Pris Yr Angor –** rhesymol iawn yw ymateb y mwyafrif, a'r gweddill rhesymol.

xi) **Defnydd o liw.** Pob un yn croesawu ac yn hoffi clawr lliw, ond yn anffodus dywed y cysodydd ei bod hi'n amhosibl creu clawr lliw, ond deil y mast yn ddu. Trieni yw hyn ond rhaid bodloni.

xii) **Maint Yr Angor.** Cadw at y maint bresennol yw'r farn.

xiii) **Clwb Cant:** Dim diddordeb gan hanner o'r rhai a anfonodd ymateb, a diddordeb gan yr hanner arall. Dylid trafod hwn yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Gorffennaf.

xiv) **Angor ar y we.** Dim diddordeb gan 60% ond 40% yn barod i weld rhannau o'r papur. Ar hyn o bryd ar we Cymry Lerpwl ceir y dudalen flaen yn unig.

xv) **Sylwadau adeiladol.** Dim ond pedwar: a) Mi fuasai'n drueni i weld yr *Angor* yn darfod; b) Edrych i fewn am gael yr *Angor* ar e-bost neu ar y we mewn ffyrdd lle medrwn ddarllen ar ipad/tablet; c) mwy o newyddion am fywyd Cymry Lerpwl tu allan i'r capel; ch) Dylid cael yr *Angor* ar e-bost hefyd.

xvi) **Beth yr hoffech weld yn yr Angor.** Ceir amrywiaeth o atebion, megis colofn coginio, chwaraeon, eitemau ar gyfer dysgwyr, pobl ifanc, busnes, portreadau, hanes lleol, eitemau amaethyddol, garddio. Ond yr alwad mwyaf yw am groeseiriau/posau. Bu y rhain gennym yn gyson trwy fedr Mr. Ken Williams. Efallai y cawn ragor ganddo haf eleni.

Felly caiff y Pwyllgor Gwaith ddigon i'w drafod yn y Cyfarfod Blynyddol, yn arbennig ar yr argymhellion a nodwyd.

***D. Ben Rees, Golygydd***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Ar Sul, 22 Mai cynhaliwyd ein hoedfa yn y pnawn er mwyn cynorthwyo ein gweinidog oedd yn efengylu yng Nghymru y bore hwnnw a gyda ninnau yn y pnawn. Bu'n rhaid defnyddio'r Festri gan fod Eglwys Crist yn cynnal oedfa o dan nawdd Cymorth Cristnogol. Ond ni fu'r symudiad o'r cysegr i gysegr arall yn rhwystr o gwbl a chawsom ein bwydo gan adroddiad Luc yn llyfr yr Actau o'r Pentecost (Darllener Actau 2: 1-13). Clywsom mai trwy rym yr Ysbryd Glân cafodd pob person ei gyffwrdd mewn dull oedd yn argyhoeddi. Sŵn dychrynllyd a phobl o amrywiol ieithoedd yn deall ei gilydd. Cenhedloedd Unedig ar waith. Sul arbennig ydoedd a daeth cynulleidfa deilwng ynghyd, ac yn eu plith ein aelod hynaf, Miss Dorothy Williams, Blundellsands sydd yn 98 mlwydd oed. Balch oeddem o'i gweld ac yn ddiolchgar fod Mrs Phyllis Starkey, Birkdale wedi ei chludo atom. Mae Miss Williams yn annwyl, gwerthfawrogol, ac yn barod i gefnogi. Cafwyd arddeliad ar y canu a'r offeryn ar waith mewn oedfa raenus. 'Melys moes mwy'.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

***'Digon o Ddadlau':*** Cawsom barhad o'r drafodaeth ar Iesu a thröedigaeth ei ddisgyblion o dan arweiniad ein gweinidog ar 9 Mai. Gwahoddwyd ni fel cynulleidfa i ddarllen yn ein tro adnodau sy'n sôn am yr Iesu'n galw unigolion a'r ymateb i'r alwad honno.

Gwelodd yr Iesu Lefi wrth y dollfa, a gofynnodd iddo ei ddilyn. Ymatebodd yntau yn gadarnhaol ond bu ymateb chwyrn gan y Phariseiaid gan ofyn "Pam y mae ef yn bwyta gyda chasglwr trethi a phechaduriaid?" Yr oedd Saccheus o Jerico yntau yn gasglwr trethi ac yn ŵr cyfoethog. Galwodd yr Iesu arno i ddod i lawr o'r sycamorwydden oherwydd yr oedd yn rhaid iddo aros yn ei dŷ ef. Grwgnach fu adwaith y dorf gan iddo letya gyda gŵr pechadurus, ond "daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig."

Ymlaen wedyn i drafod hanes y dyn gwahanglwyfus yn Efengyl Marc. Daeth hwn at yr Iesu ac erfyn arno i dosturio wrtho. Roedd ffydd ganddo y gallai'r Iesu ei lanhau. Rhybuddiwyd ef gan yr Iesu i fynd ar ei union i ddangos ei hun i'r offeiriad ac i ddiolch am ei ryddhau. Ond mynd allan a wnaeth a chyhoeddi ei lanhad i bawb o'i gwmpas.

Gweiddi am drugaredd gan yr Iesu wnaeth Bartimeus y cardotyn dall a'r ateb a gafodd oedd erfyn arno i godi ar ei draed a gofyn iddo. "Beth yr wyt ti am i wneud i ti?". "Y mae arnaf eisiau cael fy ngolwg yn nôl" medd Bartimeus a'r Iesu yn ateb gan ddweud "Dos, y mae dy ffydd wedi dy iachau". Cafodd ei olwg yn nôl a chanlyn yr Iesu ar hyd y ffordd.

Yn Efengyl Luc mae hanes am wragedd yn cael rhyddhad oddi wrth afiechydon ac

## CYMDEITHAS CYMRY LERPWL



***Y Cymry yn Speke Hall***

**Er nad oedd y tywydd yn braf iawn ar ddechrau'r prynhawn cafwyd amser pleserus yn crwydro'r gerddi ac o amgylch y tŷ yn Neuadd Speke. Cawsom ein tywys o gwmpas y gerddi a chael peth o hanes y tŷ gan un o'r tywyswyr a oedd wedi gwisgo fel Sir William Norris (1501-68), y dyn a fu'n gyfrifol am ddechrau adeiladu'r tŷ yn 1530. Yr oedd wedi marw cyn i'w fab Edward orffen yr adeiladu yn 1598 . Gorffenwyd gyda phaned o de, teisen a sgwrs yn y caffi. Diolch i Alun Davies am drefnu'r prynhawn ar ein cyfer – 'roedd pawb wedi mwynhau yr ymweliad.**

ysbrydion drwg. Enwir Mair Magdalen, Joanna a Susanna. Mae Luc hefyd yn sôn am yr Iesu yn iachau y wraig wargam ar y Sabbath drwy roi ei ddwylo arni ac ymsythodd hithau ei chorff a moliannu Duw.

Codwyd cwestiwn gan arweinwyr y Synagog am weithredu ar y Sul hyd yn oed gweithred o drugaredd.

Lleisiwyd barn ganddom oll yn ein tro a da yw seiadu fel hyn a rhannu profiadau. Diolch i Dr. Ben Rees am ein hysgogi i feddwl a thrafod ar ddyfnion cwestiynau'r ffydd. Mawr yw ein braint o gael cyflawni hynny. Bydd cyfleon eraill y misoedd nesaf hyn.

Llongyfarchiadau i Dr. John Williams am anrhydedd gan yr orsedd i dderbyn urdd y Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni Awst eleni. Diolch iddo ef a Beryl am y rhodd i'r eglwys o feibl.net tuag at ein gwasanaeth.

Mae'n diolch eto eleni i Carys Jones am drefnu casgliad blynyddol Cymorth Cristnogol. Bu amryw o'n haelodau yn casglu o ddrws i ddrws ar hyd strydoedd Penny Lane i roi cyfle i eraill gyfrannu at achos mor deilwng.

Mae dosbarth 'Dysgwyr yr Iaith' yn dal i gyfarfod ar nos Lun o 7.30 hyd 9 o'r gloch ac yn hyderus i roi noson i ni yn y Gymdeithas Lenyddol ar Dachwedd 28 eleni.

Anfonwn ein cofion fel eglwys at y rhai ohonoch sydd yn methu mynychu'r oedfaon fel arfer. Bu Miss Ann Roberts am gyfnod byr yn yr Ysbyty Frenhinol ond wedi cael dod adref erbyn hyn. Mae Norma Lloyd Owen hithau wedi cael triniaeth ar ei chlun, ac yn dod yn ei blaen yn dda. Mae Sam Prowting ynta'n teimlo'n wan ar hyn o bryd ac mae Blodwen a'r teulu agos a'u gofal yn dynn amdano.

Cydymdeimlwn â Mr. John Clement Evans, Cilcain a'r bechgyn Kenrick, Robert, Peryn a Huw ym marwolaeth Margaret, gwraig a mam annwyl iddynt. Cofiwn amdanynt yn aelodau o'n capel, a bu'r bechgyn yn rhan o'r gweithgareddau amrywiol.

Siom i ni oedd derbyn y newydd na all y Parchg. D. Glanville Rees ddod atom ar y Sul ym mis Gorffennaf a'i fod yn gorfod rhoddi'r gorau i'r fraint o gyhoeddi'r Gair i'r capeli. Bu yn dod atom i Heathfield Road ers o leiaf 50 mlynedd pan ddaeth yn weinidog Eglwys Diwygiedig Unedig Sefton Park a daliodd yn driw o flwyddyn i flwyddyn. Y mae ein dyled yn fawr iddo a dymunir yn dda iddo i'r dyfodol.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Gofidiwn yn fawr na fydd y Parchedig D. Glanville Rees, Southport yn medru dod atom ar y Suliau a dderbyniwyd ganddo oherwydd ei fod bellach o dan law'r meddyg. Ond hoffem fel Eglwys fynegi ein diolch pennaf iddo am ein gwasanaethu mor gydwybodol ar hyd y blynyddoedd. Y tro diwethaf y bu gyda ni oedd Sul 25 Hydref 2015. Rhoddodd 67 o flynyddoedd fel gweinidog ordeiniedig a bellach daeth hi'n amser ag yntau yn 96 mlwydd oed i ymryddhau o'i gyfrifoldebau i'r Suliadur.

Dymuniadau gorau oddi wrthym ni yn eglwys Seion, fel blaenoriaid ac aelodau iddo yn ei gartref yn Southport. Cawsom gwmni cennad newydd i ni ar Sul y Pentecost, 15 Mai sef y Dr. Eryl Wynn Davies, Llanfairpwllgwyngyll. Da glywed ei fod wedi cael ei ddyrchafu yn Athro ym Mhrifysgol Bangor. Mae'n arbenigwr ar y Testament Newydd a diolchwn am gael y cyfle i'w gyfarfod a gwerthfawrogi ei neges. Llongyferchir ef yn fawr.

# Cymry Manceinion

**Llongyfarchiadau Mrs C. Lois Murphy –** Roedd llun Mrs Murphy yn y *Goleuad* fel rhan o'r adroddiad o Gymdeithasfa'r gwanwyn yn Llanrug eleni ac mae'n fraint i ni yn ei dosbarth yma ym Manceinion hefyd ddatgan ein hedmygedd a'n gwerthfawrogiad diffuant o'i gwasanaeth gloyw dros deugain mlynedd fel blaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Nid bod Lois yn tynnu allan o weithio fel blaenor nac o ddod i'r capel a chefnogi gweithgareddau'n lleol ac yn henaduriaethol ond, yn ei doethineb, ei bod wedi ymddiried ei swydd fel ysgrifennydd y capel i ysgrifennydd newydd, Mrs Anne Hunt. Diolchwn i Dduw am ei phrofiad a'i chyfraniad cyson i fywyd yr eglwysi a diolchwn ninnau iddi hithau hefyd. Mae llawer o bobl hŷn yn gorfod tynnu allan oherwydd problemau iechyd ond hyd yn hyn mae Lois yn parhau i fynychu oedfaon yn gyson iawn. Gwelwn fodel o gristion llawen ac ymroddgar sy'n llawenhau yn yr Arglwydd ac yn siwr o siarad yn blaen wrthym os oes rhywbeth ar ei meddwl. Diolch Lois a daliwch ati, mae angen eich presenoldeb arnom.

***Oedfa Anghyffredin –*** Hyfryd oedd cael croesawu i'n plith Diemut Cramer ac Olaf Burghardt o eglwys Deutschrachige Stretford - Capel lle mae gwasanaethau yn Almaeneg i Almaenwyr y ddinas a'r rhai sydd wedi dysgu'r iaith, yn debyg i'n capeli Cymraeg ni ar gyfer Cymry sy'n byw dros y ffin. Mae'r ddau yn weinidogion ordeiniedig yn yr Eglwys Lwtheraidd yn eu gwlad, a daethant i gymeryd y gwasanaeth yn Willow Tree Road Fore Sul Mai 29ain. Croesawyd ni i'r gwasanaeth unedig gan Mrs Lilian Garrett ac mae'n diolch iddi am ei threfniant trylwyr. Cafwyd darlleniadau yn Gymraeg, Saesneg ac Almaeneg ynghyd â gweddïau yn y dair iaith.

Y Drindod Sanctaidd oedd thema eu myfyrdod: Duw Hollalluog ein Creawdwr a ddaeth i'n byd ym mherson Iesu Grist, a'r Ysbryd Glân sydd yma i bob un ohonom ni heddiw. Oes, mae llawer o ddirgelwch a llawer o ddatrys wedi bod, ac yn dal i fod, ar y Drindod, y tri yn Un a'r Un yn Dri, Sylfaen yr Eglwys ym mhob man.

Fel y dywedodd Paul yn y darlleniad ar Sul y Drindod, 'Iddo ef y bo'r gogoniant a hynny am byth'. Dyma wers werth i ni ei chofio amdani heddiw. Oedfa hyfryd a da oedd eu croesawu i'n plith a chael cymdeithasu â hwy dros baned o de ar ôl y gwasanaeth.

***Colled eto –*** Rydym ni wedi gorfod ffarwelio â chwaer ffyddlon, annwyl a dawnus arall yn ein dosbarth yn ddiweddar sef Mrs Dilys Williams. Yn enedigol o sir Fôn, aeth ei theulu i fyw yn Bethesda ac o'r fan honno aeth Dilys i Goleg ym Mangor i baratoi at fod yn athrawes. Priododd Roy ei gariad o ddyddiau ysgol yn 1946 ac aethant i Burnley i fyw ac i weithio yn ardal Manceinion. Yno fe ganwyd iddynt dau fab, Dafydd a Gerallt. Wedi i'r bechgyn dyfu aeth Dilys i weithio eto fel athrawes, a mawr oedd ei chariad tuag at blant, ac yn y diwedd ei hor-wyrion oedd ei dileit mwyaf. Roedd Dilys yn aelod gweithgar yn y capeli Cymraeg yn Burnley, ac yna Cheetham Hill wedyn pan caewyd y capel, symudwyd i Monton ac Oaker Avenue ac roedd Dilys yn flaenor cydwybodol, yn chwarae'r organ ac yn cefnogi'r gweinidogion bob amser. Roedd ganddi gof aruthrol a dawn arbennig i adrodd darnau hir o farddoniaeth ar ei chof tan yn ddiweddar iawn. Roedd hi yn barddoni a chofiwn ei thelynegion hardd i'r Eisteddfod. Bu i Dilys a'i chyfeillion Cassie ac Olwen fynychu'r Weinidogaeth Iachàu am flynyddoedd, ac roedd yn golled mawr i ni yng Nghapel Noddfa Oaker Avenue pan nad oedd hi yn gallu dod atom mwyach. Oedd rhaid iddi fynd i gartref gofal am y misoedd olaf ond mae gennym atgofion melys o un oedd yn gristion diymhongar, cymwynsgar a llawen a diolchwn i Dduw amdani.

**Gair o enau Cledwyn Hughes –**
*Petai chwe chant o angylion yn Westminster, angylion Seisnig a fyddent, ac ni allent ddeall teithi meddwl Cymru.*


Adolygiad

# CROESAWU GEIRIADUR YSBLENYDD

D. Geraint Lewis a Nudd Lewis, GEIRIADUR CYMRAEG GOMER, Llandysul, Gwasg Gomer, 2016, clawr caled, tudalennau 1-1295 + xxix. ISBN 978 1 84323 785 3. Pris £35.

Dyma gamp tad a mab yn 2016 a champ Gwasg a wnaeth gymwynasau lu i'n cenedl, ond nid un mwy pwysig na'r *Geiriadur* hwn. Gallaf gytuno gyda'r gwleidydd hoff Rhodri Morgan (bellach wedi ymddeol): '*Geiriadur anhepgor i bawb sy'n defnyddio'r Gymraeg heddiw, Carreg filltir ofnadwy bwysig i'n hiaith'*. Cytunaf gan fod y geiriadur cyfoes hwn mor angenrheidiol i bawb sy'n dysgu Cymraeg, yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac sydd am loywi ei Gymraeg fel y dylid.

Dylai cefnogwyr ac arweinwyr pob plaid wleidyddol, pob capel ac eglwys Gymraeg, pob ysgol a Choleg, pob swyddfa a busnes, pob cartref gofal ac ysbyty, pob llyfrgell a lle bwyta gael copi o'r *Geiriadur* hwn ar y ddesg, ar y silff, ar y bwrdd, wrth y gwely fel y medrir troi iddo, ie 43,000 o gofnodion sydd yn diffinio ysytyr geiriau Cymraeg a hynny yn Gymraeg, ynghyd â'u cyfystyron. Gwelir Saesneg pan fo galw. Ceir geiriau Saesneg cyfatebol ar ddiwedd cofnod. Bydd llawer un ohonoch yn falch o'r adran Saesneg - Cymraeg yn ateb y cwestiwn: 'Beth yw'r gair Cymaeg am .........?'




Y mae'r ddau awdur, a gŵr a ddysgodd Gymraeg ei hun yw'r cyn-lyfrgellydd D. Geraint Lewis, wedi mynd ati i roddi arweiniad gramadegol ar sut i ddefnyddio'r geiriau, gan gynnwys treigladau, ynghyd â phatrymau rhedeg berfau ac arddodiaid a phatrwm cymharu ansoddeiriau. Gwnaed y cyfan mor ddi-drafferth.

Cymerwch enghreifftiau penodol. Soniaf am pedwar o eiriau:

**A) Cristion** e.g. (Cristnogion: Cristionogion).
1. Crefydd un sy'n arddel y grefydd Gristnogol. *Christian*.
2) Un sy'n credu yn Iesu Grist fel mab Duw ac sy'n aelod o Eglwys wedi'i seilio ar y gred hon. [Dyma ddyfyniad anghyflawn. Beth am yr Undodwr sydd i'w ganfod yn y darn tir omgylch Gwasg Gomer, capeli Pantydefaid, Llwynrhydowen, Alltyblaca ac ati? Y mae Undodwr yn Gristion anuniongred, ond un sy'n credu yn Iesu Grist fel dyn ydyw ac sy'n aelod o enwad a gyflawnodd ddaioni mawr yn Lerpwl, Birmingham a Chymru).
3) Cristion – ell. lluosog Cristion: Cristionogion *Christians*.

**B) Darogan**
1) Rhagfynegi'r hyn sydd i ddod: argoeli, proffwydo, rhag-ddweud, *to predict, to foretell, to augur.*
2) bwrw rhagolwg dros yr hyn a fyddai'n debyg o ddigwydd pe bodlonid amodau cynrheidiol, e.e. beth fyddai'n digwydd i: a) pe bai cynnydd; b) a'r tymheredd yn aros yn ddigyfnewid; rhagweld – *to predict*.
3) llenyddol / llunio cerdd proffwydol mewn iaith dywyll: *to vaticinate*. Diddorol dros ben, ond pam iaith dywyll?

**C) Gwladfa** eb (gwladfeydd) cymdeithas o bobl o'r un genedl neu gefndir yn byw ynghyd (mewn gwlad estron, fel arfer), gwladychfa, trefedigaeth: *colony, settlement*.
2) Y Wladfa hanesyddol / Patagonia, sef y rhan o'r Ariannin yn Ne America yr ymfudodd Cymry i fyw ynddi yn 1865 Patagonia. (Byddwn i wedi ychwanegu ar ôl Cymry – yn y llong *Mimosa* – ac ar ôl ynddi – o borthladd Lerpwl).

**CH) Llygad** (lluosog llygaid)
1) yr organ yn y corff sy'n ei galluogi i weld – **eye.**
2) rhan allanol yr organ a'i lliw – *Mae ganddo lygaid gleision fel ei fam*.
3) y ddawn i weld. *Pe meddwn lygad arlunydd*. **eye**.
4) y nam neu'r smotyn du ar groen taten y gall planhigyn newydd egino ohono. **eye**.
5) canol llonydd storm neu gorwynt, llygad y ddrycin. **eye**.
6) agwedd, safbwynt, *ffilm yn dangos y sefyllfa drwy lygad merch*.
7) mewn enwau lleoedd tarddle nant neu afon, e.e. *Llyn Llygad Rheidiol – source*.

**Sylwch:** mae'n fenywaidd mewn rhai tafodieithoedd.

Gwir y dywedodd Dr. Brynley F. Roberts *'Pennaf angenrhaid geiriadurwr, gallwn dybio, yw diléit mewn geiriau, ymhyfrydu mewn iaith a dotio at amrywiaeth diddiwedd dulliau ymadroddi llenyddiaeth llawer cyfnod a llafar llawer ardal. Dyna sydd yn egluro dygnwch llawen Geraint Lewis tros y blynyddoedd a thrwy'r fenter hon. Mawr yw ein diolch a'n dyled iddo'*.

Yn wir mawr ein diolch i Dr. Brynley F. Roberts a D. Geraint Lewis, dau o'r cymoedd, Dr. Roberts o Aberdâr (ond yn byw yn Aberystwyth) a Geraint Lewis o Ynysybwl (yn byw yn Llangwyryfon). Ni fyddwch byth yn edifar o gael *Geiriadur Cymraeg Gomer* i'ch aelwyd.

***D. Ben Rees***

# Gweinidogion Gwleidyddol yng Nghymru

*gan D. Ben Rees*

I ŵyr grymus oes Fictoria, a phregethwyr oedd carfan dda ohonynt yng Ngwalia, yr oedd gwleidyddiaeth, yn arbennig y Blaid Ryddfrydol yn gyfystyr bron â Theyrnas Nefoedd. Roedd gormes y landlordiaid, snobyddiaeth a chadeiriau esmwyth y gentry uwch y cyfalafwyr wedi creu radicaliaid na fu ei gwell ar dir Cymru. Y gweinidog cyntaf o'u plith i fentro i'r Senedd oedd Henry Richard. Safodd ef yn 1868 gyda chefnogaeth gweinidogion gwleidyddol Cwm Cynon a Chwm Taf, Bedyddwyr, Annibynwyr ac Undodwyr yn bennaf. Bu'r ymdrech yn llwyddiannus. Cafodd Cymru Aelod Seneddol na fu ei well. Cyfunodd y frwydr dros Gymru a dros heddwch y byd. Daeth i'w adnabod fel aelod dros Gymru ac Apostol Heddwch. Gosododd y patrwm ond prin fu ei ddisgyblion yn Senedd San Steffan.

Bu'r Gweinidog Gwleidyddol nesaf yn boen enaid i'r Sosialwyr Cristnogol, fel James Griffiths (AS Llanelli yn ddiweddarach), yn y cyfnod rhwng Diwygiad 1904-5 a 'r Rhyfel Byd cyntaf Gŵr a aeth i'r weinidogaeth gyda'r Presbyteriaid oedd W. F. Phillips a hynny o dan gyfaredd ei Weinidog yn Lerpwl, y dylanwadol Dr John Williams, Brynsiencyn .. Ymhlith Cymry cyfoethog Lerpwl cafodd y Parchg W Francis Phillips ei ysbrydoli. Ymladdodd etholaeth Gwyr yn 1910 a bu bron â churo'r Aelod Seneddol Llafur. Penboethyn oedd W F Phillips, a'i brif ddiléit oedd pardduo'r Sosialwyr, ac nid oedd ganddo unrhyw barch i'r Gweinidogion gwleidyddol oedd yn cefnogi'r Blaid Lafur Annibynnol fel Silyn, Gwili, Niclas y Glais, T M Roderick (Gwm-gors) a W D Roderick (Rhiwfawr). Galwodd hwy yn 'ddisgyblion Jiwdas Iscariot'.

Nid rhyfedd i'r Rhyddfrydwr, y Parchedig Josiah Towyn Jones gadw W F Phillips draw o Isetholiad Dwyrain Caerfyrddin (22 Awst 1912). Talodd hynny ar ei ganfed. Yr oedd Josiah Towyn yn ymgorfforiad o'r gwleidydd crefyddol caredig, dymunol, huawdl, pregethwr Cyrddau Mawr ymhlith yr Annibynwyr Cymraeg , respectabl, a chadwodd y sedd o 1912 i 1918, ac yna bu'n AS Llanelli am bedair blynedd. Ef oedd eicon Annibynia Cymraeg. Cafodd ei ddewis yn Llywydd yr enwad yn ystod ei dymor fel AS. A bu bron i weinidog o Annibynnwr ei ddilyn i'r Senedd, sef yr Athro Joseph Jones, Aberhonddu. Collodd o ddeg pleidlais am sedd Prifysgol Cymru yn 1923. Cipiwyd y sedd gan George M Ll Davies a ddaeth yn weinidog ar ôl ei dymor yn y Senedd! Ond nid oedd y Senedd yn siwtio tymer nag agwedd yr heddychwr, y delfrydwr a'r cymodwr. Byddai Joseph Jones wedi bod yn affaeliad i'r Tŷ Cyffredin ac yn barod i ddadlau. Un araith a wnaeth George M Ll Davies yn ei dymor yn y Senedd! Un arall a safodd heb flino fel Rhyddfrydwr am bron i ugain mlynedd yn etholaeth Conwy oedd fy nghyfaill annwyl, y Parchedig J Roger Roberts. Cafodd ei wobr a'i ddyrchafu i Dŷ'r Arglwyddi lle mae'n llefarydd cyson ar fuddiannau'r Cymry. Un peth y gwn. Pe bae Roger Roberts yn athro neu gyfreithiwr mi fyddai wedi ennill y dydd, ond yng Nghonwy yr oedd yna elfen wrth-weinidogaethol fel y profais fy hun yn etholiadau (Chwefror a Hydref 1974) fel ymgeisydd Llafur. Cefais wrthwynebiad llym gan fod y sedd yn un ymylol. Pe bae hi'n anobeithiol ni cheid yr un gwrthwynebiad mae'n siŵr.



*T. E. Nicholas*

Seddau anobeithiol oedd y seddau a gynigid rhan amlaf i weinidogion yr Efengyl gan y Blaid Lafur. Braenaru'r tir a ddisgwylid. Y cynharaf i sefyll oedd y Parchedig T E Nicholas ('Niclas y Glais) yn etholaeth Aberdâr a'r Parchedig Herbert Morgan, Bedyddiwr, yng Nghastell Nedd yn etholiad cas, sbeitlyd 1918 a elwid y Kaki Election. Roedd y ddau yn ormod o heddychwyr i'r ornest honno. Pe baent wedi cael y cyfle yn 1922 mi fyddai'r ddau wedi eu hethol. Arloeswyr arall oedd y Parchedigion E T Owen yn etholaeth Caerfyrddin dros Lafur yn 1923 a 1924 a'r Wesle brwd o sosialydd, y Parchedig D Gwynfryn Jones yn etholaeth Fflint yn 1924. Chwarae teg i'r Bedyddiwr, y Parchedig D M Jones, Senghennydd am ddistyrbio Rhyddfrydwyr Ceredigion yn 1931 a'r Presbyteriad o Lerpwl, y Parchedig J H Howard am gyflawni'r un dasg ym Meirionnydd dros Sosialaeth Gristnogol. Safodd y mwyaf chwyldroadol ohonynt i gyd, y Parchedig Daniel Hughes, ym Mynwy yn 1931. Dyna fu'r stori ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Gwahoddwyd un o blant Tregaron, y Parchedig D Jones-Davies yn Ymgeisydd Llafur yn 1955 yng Ngheredigion a minnau yn 1965, ond bu'n rhaid imi, o dan bwysau blaenoriaid y capeli ac arweinwyr y Blaid Lafur, roddi'r gorau i fy ymgeisiaeth gan fod D Elystan Morgan wedi gadael Plaid Cymru ac yn barod i sefyll yn Etholiad 1966 fel Llafurwr. Roedd mwy o obaith, meddai R Ll Jones, Llanilar wrthyf, gan fargyfreithiwr na gweinidog yr Efengyl i ennill y sedd! Mae'n amlwg fod ei ddiagnosis yn gwbl gywir. Dewiswyd y Parchedig H R Thomas o Fynachlog Nedd yn etholaeth Dinbych yn 1979, etholaeth anobeithiol arall i Lafurwr.

Ac yn hanes Plaid Cymru gwelwn weinidogion mwyaf nodedig Ymneilltuaeth Cymru yn barod i fod yn Ymgeiswyr gan wybod nad oedd gobaith caneri ganddynt i weld San Steffan. Y cyntaf o'r criw niferus oedd y Parchedig Lewis Valentine a hynny yn etholaeth Caernarfon yn 1929. Cafodd 609 o bleidleisiau. Pan glywodd y Parchedig Fred Jones, Tal-y-bont (tad-cu Alun Ffred, AC a Dafydd Iwan, ) dywedodd: 'The Charge of the Light Brigade: O! Noble Six Hundred'. O 1929 ymlaen cafwyd gweinidogion grymus ac athrylithgar, fel J E Daniel, o Goleg Bala-Bangor yn sefyll yn Sir Gaernarfon a Bwrdeisdref Caernarfon mewn pedwar etholiad cyffredinol ac un isetholiad o 1931 i 1945. Un arall o'r cewri, Dr R Tudur Jones yn mentro i Fôn yn 1959 a 1964, a beth am ddycnwch D Eirwyn Morgan, y Bedyddiwr, yn sefyll yn erbyn un o'm harwyr, James Griffiths, yn Llanelli, yn etholiadau 1950, 1951, 1955 a Hydref 1959. Y Llafurwr yn cael 39,326 o bleidleisiau a'r cenedlaetholwyr dysgedig 2,134. Dim gwahaniaeth o gwbl! Y dystiolaeth oedd yn bwysig. Safodd dau Annibynnwr arall yn Llanelli, Raymond Williams a W T Pennar Davies, yr anwylaf o'n llenorion. Mentrodd llenor arall ym Maldwyn, Islwyn Ffowc Ellis, y bardd Aled Gwyn yng Nghastell Nedd, offeiriad D G Foster yn Aberafan a'r ysgolhaig Dr Gwilym ap Roberts yng Nglyn Ebwy. Seddau anobeithiol i Blaid Cymru ond ta waeth am hynny.

Y gweinidog a gafodd y sedd orau yn holl hanes gwleidyddiaeth Cymru oedd y Parchedig Llywelyn Williams (1911-1965), AS Abertyleri o 1950 i 1965. Ef oedd olynydd Elfed yng Nghapel Cymraeg King's Cross,Llundain. Gwyddai Abertyleri yn dda amdano. Bu'n weinidog yn y dref. Mab i löwr o Lanelli ydoedd, a fwriodd ei brentisiaeth ym mhysg chwarelwyr Bethesda, a


siaradwr penigamp fel y cofiaf yn ddaeth pan ddaeth i annerch Cyfarfod Heddwch ar sgwar Tregaron yn nechrau y chwe degau. Traddododd areithiau meddylgar. Deunydd gweinidog y goron yn ddiamau pe bae Llafur mewn grym. Enillodd pob etholiad gyda mwyafrif o dros ugain mil. Braf ei fyd.

Beth am y cyfnod presennol? Prinhaodd y gweinidogion er bod un neu ddau, eto ymhlith yr Annibynwyr, y mae'n rhaid cyfeirio atynt. Cymerer y Parchedig Ddr Felix Aubel a fu'n chwifio baner y Torïaid er mai cynnyrch Cwm Aberdâr, cadarnle'r Blaid Lafur, ydyw. Heddiw mae hen bethau wedi mynd a'i fryd a gwell ganddo ddiddosrwydd rhaglenni Wedi Tri (S4C) a phulpudau Bwlchnewydd a'r cyffiniau, yng nghefn gwlad Caerfyrddin, na mentro i'r frwydr fel ymgeisydd. Gŵr unigryw. Y mae Gwilym Hiraethog yn troi yn ei fedd yn Lerpwl wrth feddwl fod gweinidog o Annibynnwr yn coleddu athroniaeth y Torïaid. Byddai ef ar y llaw arall yn reit fodlon gyda cyd-weinidog Dr Aubel, sef Rhodri Glyn Thomas, AC Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr er 1999. Ymladdodd ef am Senedd San Steffan yn y naw degau ond bellach y mae bron mor saff ag yr oedd Llywelyn Williams yn Abertyleri. Mae'n amlwg nad yw cyfrifoldeb Gweinidog yn y Cynulliad yn atyniad iddo. Gwell ganddo ergydio o'r meinciau cefn. Ymgyrchwr fu Rhodri erioed. Felly heddiw. Anodd credu ei fod yn cyfuno cyfrifoldebau o fod yn fugail ar dri chapel yn ardal Sanclêr a Llanddowror a bod yn Aelod o'r Cynulliad. Penderfynodd yntau yn 2016 roddi'r gorau iddi. Ef yw'r tebycaf i'r gwleidydd o weinidog a aeth yn ddiweddar i'r Tŷ Arglwydd, Dr Ian Paisley. Bu hwnnw'r un pryd cofier yn weinidog Capel yn Belfast, aelod o Senedd-dy Stormont, AS Tŷ Cyffredin, a MEP Senedd Ewrop. Record nad yw Rhodri na unrhyw Gymro arall yn debyg o'i guro. Ond o'r holl weinidogion gwleidyddol y mwyaf lliwgar ohonynt i gyd oedd y Sosialydd, Leon Atkin, a wnaeth gymaint dros y difreintiedig yn nhref Abertawe. Ar ôl i'r Blaid Lafur ei ddiswyddo sefydlodd ei blaid ei hun, Plaid y Bobl, a sefyll yn isetholiad Dwyrain Abertawe (28 Mawrth 1963). Daeth yn drydydd o saith. Cafodd 2,462, 8% o'r bleidlais, tra mai dim ond 1,620 a gafodd yr ymgyrchwr brwd, Chris Rees dros Blaid Cymru. Aderyn brith, ffrind da i Dylan Thomas, a phawb oedd mewn trybini oedd Atkin. Coffa da gan y llond dwrn ohonom sydd yn ei gofio er mai dim ond yn 1974 y bu farw'r pererin o Annibynwyr Saesneg.



*Rhodri Glyn Thomas*

# CORNEL Y TRYSORYDD
## GORFFENNAF 2016



| | |
|---|---|
| Mrs Louie Jones, Allerton | £20.00 |
| Rhodd Cymdeithas Lenyddol, Bethel | £30.00 |
| Er Côf am Bob Jones, Penbedw | £30.00 |
| Mr Ralph Jones, Llanberis | £25.00 |
| Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton | £30.00 |
| Miss Mair Roberts, Rhuthun | £30.00 |
| Rhodd Pwyllgor Cerdd Manceinion | £100.00 |
| Er côf am Hywel Jones, Thingwall | £25.00 |
| Mrs Alice Jones, Thingwall | £11.00 |
| Rhodd Eglwys Seion, Penbedw | £50.00 |
| Mrs Jean Brandswood, Astley | £11.00 |
| Mrs Anne Jones, Bebington | £25.00 |
| Mr Cerys Gruffudd, Aberystwyth | £11.00 |
| **Cyfanswm** | **£398.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Myfyrdod

# HEDDWCH - gan Elwyn Parry

Ychydig yn ôl roeddwn ar daith o gwmpas swydd Efrog ac yn taro ymweliad a thref digon dymunol Thirsk. Roedd amryw o siopau bach diddorol ac fe es i fewn i un ac roedd ystafell fach yn dangos gwaith artistiaid lleol. Yn drawiadol iawn roedd dau lun ac yn rhyfedd yr un teitl oedd i'r ddau, ac wedi creu cryn sylw a rhai ymwelwyr yn chwerthin yn ddirmygus ac eraill yn canmol a cheisio esbonio. Teitl y ddau lun oedd PEACE.. ond yn hollol wahanol. Roedd un darlun o ddiwrnod o Haf ac yn wir roedd yn fendigedig oherwydd roedd yr artist wedi llwyddo i greu awyrgylch o dawelwch hudol yng ngwres yr haul gyda awyr las di-gwmwl a theimlad o dangnefedd. Roedd yr ail ddarlun yn hollol wahanol – cymylau tew duon, glaw a gwynt yn amlwg yn chwipio'r môr ac yn ei luchio yn erbyn y clogwyni OND yn fedrus tu hwnt o graffter roedd yr artist wedi rhoi hollt yn y graig ac yno roedd aderyn bach yn ei nyth wedi'i lapio yn ei adenydd – PEACE.

Wedi dod adref fe feddyliais lawer am y ddau artist a'u syniad o heddwch ac yn wir fe welais fod yna ddameg yn y fan hyn enwedig mewn oes gythryblus fel heddiw. Mae'r hen fyd yma yn rhoi syniad gau o heddwch inni gyd, onid yw? Wel, rwyt ti'n iawn os bydd gen ti arian yn y banc – os bydd gen ti do uwch dy ben – os bydd dy waith yn ddiogel – os bydd gen ti iechyd da – "all's well with my world." Pob dim mewn ffordd yn glustog i mi yn erbyn anniogelwch ac ansicrwydd mewn bywyd. Mae heddwch byd yn dibynnu ar pethau nad ydym yn medru ei reoli. Mor wahanol i heddwch a thangnefedd Duw trwy Iesu Grist. Fel dywed Paul "mae gras Duw yn ddigon i bob eisiau?"

Ond mewn realiti dydy pethau ddim fel hyn. Pa fesur bynnag y cymerwch naill ar ochr y byd neu'n bersonol, "micro" neu "macro" mae bywyd yn dod a'i stormydd a "throeon yr yrfa" o bryd i'w gilydd.

Yn ddiddorol, yn yr ail ddarlun, yr aderyn bach yn gorffwys yn ei nyth yn nannedd y corwynt yn ddigon agos i ddysgeidiaeth y Beibl am anrheg Duw o heddwch. Hoffaf Eseia pan ddywed "Dros ennyd fechan a'th adewais – y mynyddoedd a giliant a'r bryniau a symudant eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt a CHYFAMOD FY HEDD NI SYFL medd yr Arglwydd". Ohono Ef daw pob heddwch ac iaith yr Efengyl yw heddwch a thangnefedd a'r unig ffordd i'w gael ydyw i ymaflyd yn erth y CRIST. Mae heddwch, greda i, dim cymaint ag absenoldeb trafferth neu drwbl ond heddwch calon, meddwl ac enaid sy'n dod ynghanol gofid a thrallod bywyd. Iaith yr Efengyl yw heddwch a thangnefedd a rhaid ymaflyd yn nerth Duw, sef y Crist, fel y gwnelo yn un.

Mae rhywun wedi dweud "The world can create trouble but only GOD can CREATE PEACE in trouble". Fel dywed Iesu ei hun "Yr wyf yn gadael i chwi Tangnefedd." Darllener emyn Elfed, rhif 787 yn *Caneuon Ffydd*.

# CYSTADLEUAETH Y LIMRIG

Dyma ymdrech **Angela Lansley** o Ddosbarth y Dysgwyr, Canolfan y Cymry, Lerpwl –

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod*
*Mae'n rhaid i mi geisio darganfod*
*Cyfrinion yr Orsedd*
*Yr englyn a'r gynghanedd*
*A phwy sy'n bwysig eu nabod.*

Yna gwaith **Gwilym ap Gonagall** o'r un dosbarth

*A minnau ar drothwy'r Eisteddfod*
*A chyfle i ennill dodrefn newydd*
*Bydd y beirniaid yn synnu*
*Ond fydda nhw yn mynnu*
*Rhoi'r gadair i frawd o Dundee.*

Ac o'r Un Dosbarth yr angorwr, **Mike Farnworth -------**

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod*
*I'r Fenni wnawn ni pererindod*
*Bydd y prif feirdd i gyd*
*Dweud y gwir wrth y byd*
*Gyda cherddi llawn dop o Gymreictod.*

———

**Ymdrechion David Williams, Stevenage (a gynt o Karslake Road, Lerpwl - un o aelwydydd gwbl Gymreig De Lerpwl).**

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod,*
*Y Gadair, Y Goron ar Ddefod,*
*Gobeithio cawn hwyl,*
*Yn ystod yr ŵyl,*
*Ac os ddaw y glaw fydd hi'n bechod.*

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod,*
*Nol symud yr holl ffordd o Meifod,*
*Y mae 'na eleni,*
*Yn ardal Y Fenni,*
*Pafiliwn newydd er mwyn y cyfarfod.*

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod,*
*Hen atgofion i'n meddwl syn dyfod,*
*Mewn dyddiau a fu,*
*Mi roedd, 'Cadair Ddu',*
*Cawn ni goffáu Hedd Wyn rhyw ddiwrnod?*

———

———

**Tair Limrig Ken Williams (Gateacre)**

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod*
*Yn edrych ymlaen i gyfarfod*
*Hen ffrindiau o'r Rhondda*
*Llandudno a'r Bala*
*A hyd yn oed crowd o Landrindod.*

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod*
*Brwdfrydedd yn berwi yn barod*
*I glywed y canu*
*Yr adrodd a'r barnu*
*Rhai'n ennill, rhai'n colli – na bechod.*

*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod*
*Yn disgwyl y glaw bob diwrnod*
*Y mwd dros esgidiau*
*I lan i'r pen-liniau*
*A gweled pob tafarn, yn gysgod.*

———

***A'r buddugol limrig gofiadwy***
***Enfys Hughes***

***Bro'r Angor***
*A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod*
*Y peth trist oedd i ni gael ein gwrthod*
*Cofiwn er hyn*
*Orchest Hedd Wyn*
*Nid ffin sy'n diffinio Cymreictod.*
**Enfys Hughes**

*Diolch iddynt am limrigau gafaelgar.*

———

*Y dasg nesaf: llunio tair llinell i greu pennill: ……*

***Ar wawr o Fehefin –***

*Anfoner at benatgarthdrive@talktak.net*

## CANU'N IACH YR UNDEB GORAWL

Yr oedd mis Mai yn fis brysur i Undeb Gorawl Cymry Lerpwl. Roeddynt yn rhan o Basiant y Pentecost ar lwyfan dros y ffordd i fwyty 60 Hope Street. Dyma'r sesiwn a denodd y gynulleidfa fwyaf drwy'r prynhawn yna a chafodd y gynulleidfa wledd o gerddoriaeth wedi ei baratoi ar gyfer yr achlysur.

Daeth tymor cyngherddau' y Côr i ben yn Eglwys Sant Andreas, West Kirkby. Roedd yr Eglwys yn orlawn a chafwyd diweddglo teilwng i flwyddyn brysur gyda cherddoriaeth gan Bach, Rutter, Schubert a Robert Arwyn. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i gyngerdd cyntaf y tymor nesaf ar Hydref 22ain yn Eglwys y Santes Fair, West Derby – 'Mozart a'i ffrindiau'.

## GWLEIDYDDION CYFOES

**David Cameron, Y Prif Weinidog**
*Mae hwn fel record gramoffon*
*Yn dweud yr un peth bob dydd*
*Am hyn a'r llall a ddaw o'i geg*
*Fel llifogydd dolur-rhydd.*

**Jeremy Corbyn, Arweinydd yr Wrthblaid**
*Baner goch ar llawes ei grys*
*A'r "Guardian" yn glwm yn ei law*
*'Rhen Gorbyn a'i griw, maent ar frys*
*I wrthod beth bynnag a ddaw.*

**Nigel Farage, Arweinydd UKIP**
*Mae ef ar ei draed byth beunydd*
*Allan yn y gwynt a'r glaw*
*Yn rhoi ei farn ar bopeth byw*
*A hyn – a pheint yn ei law!*

**Tim Fallow, Y Rhyddfrydwyr Democrataidd**
*Arweinydd y Lib-Dems, yw Tim*
*Mae'n teimlo y baich arno'n llym*
*Mae'r parti o hyd yn para i ddadlau*
*A'i mynd gyda'r cŵn neu'r cadno*
*fydd orau.*

T.D.




**COFIO MRS JANE HUGHES, AIGBURTH**

*Annwyl Olygydd*

Coffa da am Jane ac Emrys yn gyd-ddisgyblion â mi yn Ysgol Ramadeg Brynrefail. Hefyd, y croeso yn eu fflat ar gornel Smithdown Road ddechrau'r chwedegau.

Yn 1965 trefnodd Roderick Owen a Humphrey Wyn Jones noson o ddramau Wil Sam yn Ysgoldy Heathfield i godi arian tuag at y capel ac roedd Jane ac Emrys yn amlwg yn y dramau.

Humphrey Wyn yn cynhyrchu 'Y Dyn Codi Pwysau' a Roderick wrth y llyw gyda 'Y Gadair Olwyn'. Llawer o hwyl, gallwch ddychmygu!

***Cofion***
***Gareth Pritchard, Llandudno***

# A dyma'r newyddion diweddaraf o 'Hengoed'…

## *gan Gwilym Dafydd*

**Dydd Mercher, 25 Mai**

Tri mis union yn ôl, 'dathlais' fy mhen-blwydd yn 60. Dau fis union yn ôl, sef Gwener y Groglith, ces wared o fy iselder ysbryd – diolch i'r Nefoedd! Tua 11.30 y bore canodd gloch y drws ffrynt – ron i wrthi yn peintio drws ein garej a oedd gynt yn ddu ond bellach yn lliw glas 'Cambridge Blue'. Pam lliw glas? Mae llun hyfryd gyda ni o aderyn Glas y Dorlan ar wydr ein drws ffrynt mewnol. Mae Eirian, Llew a Teigris yn hoffi'r lliw glas – oes rhaid i fi eich atgoffa pam! Cliw: newydd dderbyn ebost oddi wrth @BlueFamily Everton Football Club.

Roedd yno ddyn â phecyn yn ei law – arwyddais amdano. Ron i'n gwybod yn iawn beth a oedd ynddo sef copi arall o Geiriadur Cymraeg Gomer gan D Geraint Lewis a'i fab Nudd Lewis. Pam faswn i am dalu £35 arall am y llyfr gwerthfawr a defnyddiol hwn? Dyma'r esboniad: roedd gen i o leiaf dri wlser yn fy ngheg ac roedden nhw'n boenus! Beth yw lluosog 'wlser' meddyliais. Meddyliais yn anghywir taw lluosog 'wlser' yw 'wlseri'. Edrychais yn fy ngeiriadur newydd a sylweddoli nad oedd gen i eiriau yn dechrau â'r llythyren 'w'! Roedd tudalennau 1009- 1040 ar goll! Pob gair Cymraeg rhwng 'thermionig' ac 'ymollwng'! Cysylltais gyda Gwasg Gomer, Llandysul i adrodd fy stori. 'Wlserau' yw lluosog 'wlser' meddai Sioned o'r Wasg. Rhowch chi eich cyfeiriad i fi a chewch chi gopi arall o'r geiriadur yfory. Ac felly y bu. Diolch yn fawr i Wasg Gomer am ei charedigrwydd. Bellach mae gan fy mhriod Eirian (merch y diweddar Barchedig Trefor Davies Jones, ac un o blant Lerpwl) a fi gopi yr un o'r llyfr tra gwerthfawr hwn. Un ger ein cyfrifiadur yn y lolfa ac un arall lan lloft yn fy stydi fach.

**Dydd Iau, 28 Mai**

Cofio i fi ddal bws tua 12.30 tu allan yr Hollybush. Erbyn un o'r gloch ron i'n helpu dosbarth Canolradd Cathy Mac ym Mharc Cathays 2. (PC2) Bydd rhaid i'r dysgwyr siarad gyda'r arholwr am ddeg munud am eu cefndir, gwaith, teulu, diddordebau, profiadau wrth ddysgu Cymraeg. Mae diwrnod arholiad CBAC yn agoshau: dydd Mercher, 8 Mehefin yw'r diwrnod nerfus mawr!

Aeth Eirian draw i HEFCW Llanisien erbyn 1.30 ar gyfer dau ddosbarth Cymraeg. Yna rhwng 5.15 ac 8.30 roedd hi allan yn Whitchurch Rd. – dyna ble roedd hi'n gwisgo ei het fel tiwtor Ffiseg gyda Chwmni Ymestyn.

Sylwais ar gyfrif Trydar Eirian bod cwis gan Eglwys Ebeneser heno am saith o'r gloch yn Neuadd Eglwys Sant Teilo. Codi arian i elusen 2015-16 y capel sef Alzeimer's. Canolfan Maggie oedd elusen 2014-15 a chyflwynwyd siec o £4,600 i Elusen Maggie. Unwaith eto heddiw ron ni tua allan yr Hollybush am 6.45 yn disgwyl am fws 26 neu 132 i ddod lawr Heol Pendwyallt.

Dydw i ddim fel arfer yn berson cwis – dwi ddim yn siwr pryd oedd y tro diwethaf… Roedd tri tîm – chwech, chwech a saith yn ein tîm ni a dau berson yng ngofal y cwestiynau. Awgrymais 'Wybrnant' fel enw i'n tîm ni pan ddaeth Arfon beibl.net Jones i eistedd gerllaw. Cafwyd wyth set o gwestiynau amrywiol – Daearyddiaeth, Cymru, Cerddoriaeth a Hanes cyn hanner amser pan roedd hi'n amser i yfed paned neu ddwy a llyncu'r danteithion blasus – gwelir llun! Amser hefyd i ddyfalu pwy oedd 20 o enwogion ar ddarnau o bapur – maen nhw ar y ford yn y llun hefyd. Cafodd ein tîm ni 85 o farciau ac ennill bocs o siocledi Cadbury's. ! Credaf taw'r ddwy wraig yn ein tîm oedd yn gyfrifol am ennill llawer iawn o'r marciau: Petra Bennett a Carys Moseley – doedd cyfraniadau'r dynion gan gynnwys Tudur, brawd Arfon, Eilir Jones, Alun Tudur, (Gweinidog) a fi ddim mor sylweddol! O leiaf ron i'n gwybod taw Jâms Hywel yw enw'r siop lle saif gweddillion hen Gapel Bethany. Gorffennodd y noson hwyliog ychydig cyn deg a cherddais nôl i Hengoed erbyn 10.15.



*Tîm Wybrnant*

**Dydd Gwener, 27 Mai**

Gadael y tŷ wedi 8.30 a chyd-gerdded gydag Eirian i Orsaf Coryton. Roedd ganddi ddosbarth Cymraeg yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd am ddeg o'r gloch. Arhosais am fws tu allan i Ysbyty'r Eglwys Newydd. Mae'n wir y gallwn fod wedi cerdded saith munud lan yr allt i nofio yng Nghlwb Hamdden Gwesty Pentref…

Ychydig cyn un ar ddeg roeddwn nôl ar waelod Heol Pantmawr yn disgwyl am fws rhif 23 i'm cludo i Riwbeina. Dechreuais i gyda'r Athro Gwynedd Pierce yn Heol Isaf. Mae e bellach yn 95 oed. Mae e'n dal i chwarae golff yn Radur pob bore Iau. Doedd e ddim yn ei hwyliau gorau gan ei fod ar y ffordd i'r Ddeintyddfa erbyn 11.55! Draw a fi wedyn i Heol Lewis. Galwais gyda Rhiannon Ball – hi yw brawd y geiradurwr D Geraint Lewis – doedd dim ateb. Lan a fi i rif 32, dyna gartref Don a Marion Farr, Sblot Baptist – ron nhw allan yn siopa, dywedodd cymydog rhif 28! Arhosais 12 munud ger arhosfan bws gyferbyn â chapel Bethany Heol Llanisien Fach. Cyrhaeddodd y bws yn brydlon am 12.02. Lawr a fi i'r pentref a galw yn swyddfa'r cyfreithiwr Emyr Pierce, gyferbyn â chapel Beulah URC. Efallai taw'r tro diwethaf i fi gyfarfod Emyr oedd yn haf 1967 wrth ffarwelio ag Ysgol Gymraeg Bryntaf. Roedd yna ddyn arall yno yn disgwyl cyfarfod ag Emyr – roedd e fel Emyr unwaith yn ddisgybl yn Whitchurch High nôl ar ddiwedd y 60au. 'Give me two minutes with Emyr' dywedais wrtho, 'I haven't seen Emyr since 1967!' Do, gwibiodd 120 eiliad heibio'n gyflym iawn…

# DOSBARTH MANCEINION – Cymanfa 2016

Ar ddydd Sul, 15fed o Fai, cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dosbarth Manceinion yng nghapel Willow Tree Road, Altrincham o dan arweiniad Mrs Ilid Anne Jones o Glasinfryn ger Bangor. Yr organyddes oedd Mrs Lilian Garrett a'r Llywydd Mrs Mair Swift. Yng nghyfarfod y prynhawn cafwyd unawd gan Mr Trefor Davies, Altrincham, a phleser mawr fel arfer oedd cael gwrando arno. Yng nghyfarfod yr hwyr cawsom anerchiad gan y Llywydd, yn siarad am ddechreuad yr Eisteddfod yng Nghymru, a'r traddodiad sydd wedi parhau dros y canrifoedd. Yn y dechrau 'roedd y cystadleuwyr yn feirdd proffesiynol a chanddynt drwydded i ddilyn eu crefft ond yn awr mae'r Eisteddfod yn agored i bawb. Erbyn heddiw mae nifer o Eisteddfodau yn bod – Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac hefyd Eisteddfod Patagonia – sy'n dangos bod y poblogrwydd yn parhau a'r cystadlu mor frwd ac erioed. Hir y parhaed felly. Yn dilyn, cawsom ddatganiad bendigedig ar yr organ gan ein harweinyddes.



*Mr Trefor Davies, Mrs Ilid Anne Jones, Mrs Mair Swift, Mrs Eflyn Evans a'r organyddes Mrs Lilian Garrett.*



*Rhai o'r cantorion yn cael seibiant.*

Defnyddiwyd rhan helaeth o'r emynau yn Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2016, ac er ein bod yn gynulleidfa fechan, cawsom ganu pedwar llais brwdfrydig o dan law ein harweinyddes medrus. Hawdd gweld fod y rihyrsals a gawsom dros fisoedd y gaeaf wedi bod o fudd, a diolchwn i'r arweinyddion lleol am eu llafur. Cafwyd te blasus rhwng y ddau gyfarfod, wedi ei baratoi gan ferched y capel, a da yw cael dweud bod ein Cymanfa wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto.

***Eflyn Evans***



*Mwynhau y te blasus*



*Yr arweinyddes wrth ei gwaith*

# ANRHYDEDDU Y MEDDYG CAREDIG

Daeth llawenydd mawr i Gymry'r Glannau a Chymry Manceinion pan ddatgelwyd y newydd fod Dr. John G. Williams, Allerton wedi cael ei anrhydeddu gan yr Orsedd. Caiff ei dderbyn i'r Wisg Las am ei gyfraniad gwerthfawr i wahanol adrannau mis Awst eleni.

Cafodd yrfa nodedig fel ffisigwr yr ysgyfaint yn Ysbyty Halton a Warrington. Cyfrannodd yn helaeth ers 1982 fel arweinydd yn Eglwys Bresbyteraidd Bethel, Heathfield Road, a deil felly hyd heddiw. Y mae ei arweiniad o fewn yr enwad a'r Henaduriaeth yn hynod o dderbyniol. Bu yn gefnogol i Gymdeithasau Meddygol, Cymraeg a Saesneg, a bu yn gonglfaen fel ffotograffydd i'r *Angor* ar hyd y blynyddoedd. Croesawodd ef a'i briod Beryl ddarlithwyr, pregethwyr, pwyllgorau, cyfarfodydd i'w cartref dedwydd yn gyson, a chawsom gefnogaeth wych gan y mab, Rhys a'r ferch Sara. Daw'r newydd da yn donic iddynt hwythau ac i ninnau pobl *Yr Angor.*



***Dr. John G. Williams***

***(Llun: Sara Williams)***

Dr. John yw Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Cefnogodd ar hyd y blynyddoedd Gymdeithas Cymry Lerpwl ac y mae yn Is-Lywydd ers rhai blynyddoedd. Derbynnir ef gan yr Arch-dderwydd yng nghylch y meini yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni a'r Cylch. Ymuna â'r mawrion o fyd meddygaeth Cymry Lerpwl a gafodd yr un anrhydedd yn y dyddiau gynt a fu, sef i enwi tri, Dr. Emyr Wyn Jones, Howell Hughes, yr Athro David Alan Price Evans. A haedda y Dr. John gael ei le ymhlith y cylch hwn a chylch ehangach y genedl.

***D.B.R.***



***Llun o'i gamera***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Awst/Medi 2016 –** erbyn bore Gwener, 1 Gorffennaf, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Hydref 2016** – erbyn bore Iau, 1 Medi, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Tachwedd 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 1 Hydref, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar 3 Hydref, 2016.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

- **Cyfarfod Blynyddol Yr Angor** – yn Ystafell y Gweinidog, Capel Bethel, Heathfield Road ar bnawn Llun, 18 Gorffennaf 2016 am 2 o'r gloch o dan gadeiryddiaeth Dr. John G. Williams.

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*